# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)11-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 31 Mawrth 2009

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Nick Bourne, Y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Alun Cairns. Croesawodd y Pwyllgor Nick Bourne a oedd yn dirprwyo ar ei ran yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)10-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 24 Mawrth 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)11-09(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ bod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Mesur Diwygio Lles wedi ei ohirio. Gofynnodd Peter Black pam bod y cynnig wedi'i ohirio a dywedodd bod y Mesur eisoes wedi mynd drwy Dŷ'r Cyffredin. Dywedodd Arweinydd y Tŷ bod y cynnig yn cael ei gwblhau ac y byddai'n cael ei gyflwyno'n fuan.

3.2 Nododd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth.

3.3 Nododd y Pwyllgor y byddai'r weithdrefn newydd ar gyfer ymdrin â gwelliannau i gynigion y gwrthbleidiau yn cael ei chyflwyno ddydd Mercher.

3.4 Gan fod dwy Ddadl Fer wedi'u trefnu ar gyfer dydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor i ddod â'r Cyfnod Pleidleisio ymlaen, ni ddylai ddigwydd cyn 4.30pm.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)11-09(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf .

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)11-09(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitem ganlynol o fusnes heblaw busnes y Llywodraeth:

Dadl Cyfnod 1 (Rheol Sefydlog 23.24) ar Fesur arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (60 munud) ar 13 Mai.

3.7 Cytunodd  y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Trefn busnes**

**Papur ar ailstrwythuro'r system bwyllgorau - BC(3)11-09(p4)**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur ar  'Ailstrwythuro'r System Bwyllgorau', a oedd yn bapur rhagarweiniol er mwyn cychwyn trafodaethau ar sut y gellid gwneud y system bwyllgorau'n fwy effeithiol.  Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at y mater yng nghyfarfod heddiw ar ôl ymgynghori â'u grwpiau.  Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddychwelyd at y mater ar ôl toriad y Pasg, er mwyn rhoi mwy o amser ar gyfer ymgynghori â grwpiau.

**5. Deddfwriaeth**

**Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2: Amserlen ar gyfer cwblhau Cyfnod 1 - Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) - BC(3)11-09(p5)**

5.1 Roedd Val Lloyd, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn bresennol yn y Pwyllgor Busnes ar 24 Mawrth er mwyn trafod y cais i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd yn ôl ar y Mesur arfaethedig Plant a Theuluoedd.  Yng nghyfarfod heddiw, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried llythyr pellach oddi wrth y Cadeirydd.  Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad cau o wythnos, sef o 12 Mehefin i 19 Mehefin 2009.  Cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 gynnal cyfarfod ychwanegol ar brynhawn dydd Llun.

**Papur eglurhaol ar Fesur arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru - BC(3)11-09(p6a) ac amserlen eglurhaol - BC(3)11-09(p6b)**

5.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio Mesur arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2 gyda 3 Gorffennaf 2009 fel dyddiad cau.

**6. Pwyllgorau**

**Cais gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol am  i Aelodau fynd i Seminar Diwrnod Ewrop Senedd yr Alban - BC(3)11-09(p7)**

6.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais am i dri Aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol fynd i Seminar Diwrnod Ewrop Senedd yr Alban ddydd Iau 7 a dydd Gwener 8 Mai 2009.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**